Asesiad Effaith Iechyd

Creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru

Enw'r penderfyniad:

Creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru

Diben / nod y penderfyniad:

Sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru er mwyn galluogi cydfargeinio sectoraidd rhwng cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr a negodi Cytundebau Cyflog Teg gorfodadwy sy'n cwmpasu cyflog, telerau ac amodau a materion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Y diben bwriadedig yw gwella cydnabyddiaeth, gwobrwyo, cyfraddau recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol, helpu i greu gweithlu mwy sefydlog a chynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau gofal gwell i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Grŵp/Grwpiau Poblogaeth y bydd y penderfyniad / polisi yn effeithio arno/arnynt

- Pa wybodaeth sydd gennych chi am y grŵp/grwpiau o'r boblogaeth yr ystyrir yn rhesymol y gallai'r penderfyniad effeithio ar eu hiechyd corfforol neu eu hiechyd meddwl?

Y grwpiau o'r boblogaeth y mae'r penderfyniad yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yw gweithwyr gofal cymdeithasol, cyflogwyr a darparwyr gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a chomisiynwyr, pobl sy'n cael gofal, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, cyflogwyr unigol cynorthwywyr personol, gofalwyr di-dâl a theuluoedd. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cynnwys pobl dros gwrs bywyd, gydag ymatebion i ymgyngoriadau gan weithwyr cartrefi gofal, gweithwyr gofal cartref, arweinwyr tîm a rolau eraill sy'n gysylltiedig â gofal. Mae'r effeithiau iechyd tebygol yn arbennig o berthnasol i weithwyr â chyflog is, menywod, gweithwyr hŷn, gweithwyr anabl, gweithwyr ethnig lleiafrifol a gweithwyr mewn cymunedau gwledig neu gymunedau Cymraeg, oherwydd gall gwell cyflog, diogelwch ac amodau cyflogaeth effeithio ar lesiant meddwl, diogelwch ariannol a straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

Gallai newidiadau i sefydlogrwydd y gweithlu, parhad ac ansawdd gofal hefyd effeithio ar bobl sy'n cael gofal, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu, pobl awtistig, plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, a phobl y mae angen cymorth dementia, cymorth anabledd corfforol neu gymorth gofal cymhleth arnynt. Gellid effeithio ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a gofalwyr di-dâl pe bai rhoi'r penderfyniad ar waith yn cynyddu costau neu'n newid mynediad at ofal ffurfiol. Gallai'r penderfyniad gael

effeithiau gwahanol ar gymunedau gwledig a thrawsffiniol oherwydd amser teithio, marchnadoedd llafur lleol, anghenion o ran y Gymraeg ac unrhyw wahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr.

Nodi ac asesu effeithiau ar iechyd

- A fydd y penderfyniad yn cael unrhyw effeithiau bwriadedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y grŵp/grwpiau o'r boblogaeth a nodwyd?

- A oes unrhyw effeithiau anfwriadol yr ystyrir yn rhesymol bod y penderfyniad yn debygol o'u cael, ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl y grŵp/grwpiau o'r boblogaeth a nodwyd?

- A ydych wedi rhoi sylw dyladwy i'r canlynol:

    - **Penderfynyddion ehangach iechyd:** mae hyn yn golygu'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol a allai effeithio ar iechyd pobl)?
    - **ffactorau sy'n ymwneud â thegwch iechyd:** mae hyn yn golygu unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chyfleoedd iechyd (h.y. cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd a alli hyrwyddo neu wella iechyd corfforol neu iechyd meddwl) a achosir gan unrhyw ffactor, gan gynnwys:
        (i) statws economaidd-gymdeithasol,
        (ii) lleoliad daearyddol
        (iii) presenoldeb nodwedd warchodedig o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

- Ystyriwch yr effeithiau **byrdymor** a **hirdymor** yn unol â'r pum ffordd o weithio (Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor, Atal).

Mae'r effeithiau bwriadedig ar iechyd yn rhai cadarnhaol ar y cyfan. Disgwylir i wella cyflog, telerau ac amodau gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol gweithwyr gofal cymdeithasol drwy wella diogelwch ariannol, cydnabyddiaeth a morâl, a thrwy leihau rhai o'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyflog isel, gwaith ansicr a dilyniant cyfyngedig. Gallai gweithlu mwy sefydlog a werthfawrogir yn fwy wella parhad ac ansawdd gofal a chyfrannu at wydnwch ehangach mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hefyd gyfrannu at gymorth i ofalwyr di-dâl drwy wella mynediad at ofal ffurfiol dibynadwy. Mae'r polisi hefyd yn cyd-fynd â phenderfynyddion ehangach iechyd drwy ymdrin â chyflogaeth, incwm, ansawdd swyddi, hyfforddiant a dilyniant yn un o sectorau'r economi sylfaenol. Gallai leihau anghydraddoldebau iechyd gan mai gweithlu â chyflog is yn bennaf sy'n debygol o

elwa ohono, gan gynnwys grwpiau a nodwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad fel menywod, gweithwyr hŷn a gweithwyr lleiafrifoedd ethnig.

Gallai fod effeithiau negyddol anfwriadol os na chaiff Cytundebau Cyflog Teg eu hariannu'n ddigonol neu os na chânt eu halinio â gwaith comisiynu. Gallai'r rhain gynnwys costau uwch i ddarparwyr, comisiynwyr, comisiynwyr y GIG neu unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, pwysau ar ddarparwyr llai o faint, llai o wasanaethau ar gael neu fwy o ddibyniaeth ar ofalwyr di-dâl. Gallai hefyd fod risgiau o ran gweithredu i wasanaethau gwledig, darparwyr trawsffiniol a phobl sydd angen gofal drwy gyfrwng y Gymraeg os na chaiff fforddiadwyedd a chyflenwad o weithlu eu monitro'n ofalus. Rhoddwyd sylw dyladwy i benderfynyddion ehangach iechyd a ffactorau'n ymwneud â thegwch iechyd drwy ystyried statws economaidd-gymdeithasol, nodweddion gwarchodedig, daearyddiaeth, gwledigrwydd, y Gymraeg, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gofalwyr di-dâl, cynaliadwyedd darparwyr ac effeithiau posibl ar bobl sy'n cael gofal.

Tystiolaeth ac ymgysylltu

- Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio? (e.e. ymchwil, data, asesiadau blaenorol)
- Myfyriwch ar unrhyw dystiolaeth a dynnwyd o weithgarwch ymgysylltu/ymwneud â'r grŵp perthnasol o'r boblogaeth yn unol â'r pum ffordd o weithio

Mae'r asesiad yn defnyddio'r ymgynghoriad ar ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru, y dadansoddiad a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r wybodaeth ddemograffig gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Mae hefyd yn defnyddio tystiolaeth o'r gwerthusiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol a barn rhanddeiliaid a gasglwyd drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, gweminarau a chyfarfodydd dan arweiniad rhanddeiliaid.

Lliniaru a gwella

- Pa gamau gweithredu y gellid yn rhesymol eu hystyried er mwyn **atal**, **lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol**?
- Pa gamau gweithredu y gellid yn rhesymol eu hystyried er mwyn cynyddu **unrhyw effeithiau cadarnhaol**?

Dylai mesurau lliniaru ganolbwyntio ar fforddiadwyedd, gweithredu a monitro. Dylai'r llythyr cylch gwaith bennu amlen ariannu glir, ei gwneud yn ofynnol ystyried

fforddiadwyedd i awdurdodau lleol, comisiynwyr y GIG, darparwyr, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a threfniadau taliadau uniongyrchol, a'i gwneud yn ofynnol i Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried canlyniadau anfwriadol o ran argaeledd gwasanaethau a pharhad gofal.

Dylai canllawiau gweithredu fod yn glir, yn hygyrch a chael eu llunio ar y cyd â Chorff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid perthnasol, gan gynnwys canllawiau i weithwyr, darparwyr, comisiynwyr, cyflogwyr cynorthwywyr personol ac unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

Dylai trefniadau ariannu a chomisiynu dynnu gwersi o'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol, gan gynnwys yr angen am dryloywder a sicrwydd bod cyllid yn cyrraedd y gweithlu.

Gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol drwy sicrhau y gall Corff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried materion ehangach sy'n ymwneud â'r gweithlu lle mae'r rhain o fewn cwmpas ei swyddogaethau a lle mae tystiolaeth yn cefnogi hyn, gan gynnwys hyfforddiant, dilyniant gyrfa, llesiant, urddas yn y gwaith, cydraddoldeb, gweithio hyblyg ac iechyd a diogelwch.

Dylai gweithgarwch ymgysylltu parhaus gynnwys gweithwyr, cyflogwyr, llywodraeth leol, comisiynwyr y GIG, pobl sy'n cael gofal, gofalwyr di-dâl, pobl anabl, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, cymunedau gwledig a chymunedau Cymraeg a darparwyr llai o faint.

Dylai asesiadau effaith pellach ategu Cytundebau Cyflog Teg yn y dyfodol unwaith y bydd y telerau a negodwyd yn hysbys.

Effeithiau cyffredinol ar iechyd

- Effaith ddisgwyliedig gyffredinol y penderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl unwaith y bydd camau lliniaru / gwella wedi'u cymryd: (Cadarnhaol / Negyddol / Cymysg / Niwtral)
- Yr effaith ddisgwyliedig gyffredinol ar anghydraddoldebau iechyd: (Lleihau / Cynyddu / Niwtral / Aneglur)

At ei gilydd, mae'r effaith ddisgwyliedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn gadarnhaol, yn amodol ar gyllid, cyflawnadwyedd a mesurau lliniaru digonol. Disgwylir i'r cynnig wella llesiant, diogelwch ariannol, morâl a chyfraddau cadw gweithwyr, a gallai wella parhad ac ansawdd gofal i bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau.

Yr effaith ddisgwyliedig ar anghydraddoldebau iechyd yw lleihau anghydraddoldebau, am fod y polisi wedi'i dargedu at weithlu â chyflog is ac y gallai fod o fudd i grwpiau sydd wedi'u gorgynrychioli yn y sector gofal cymdeithasol neu sy'n wynebu anfantais yn y farchnad lafur. Fodd bynnag, mae'r effaith gyffredinol ar anghydraddoldebau iechyd yn parhau i ddibynnu ar y ffordd y caiff y polisi ei roi ar waith. Os caiff costau eu trosglwyddo i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, os effeithir ar hyfywedd darparwyr neu os caiff argaeledd gofal ei leihau, gallai fod

effaith anuniongyrchol negyddol ar bobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr di-dâl a phobl mewn cymunedau gwledig neu gymunedau Cymraeg.

Gyda'r mesurau lliniaru a ddisgrifiwyd uchod, mae'r asesiad cyffredinol yn gadarnhaol gyda rhai risgiau gweddilliol sydd angen eu monitro.

Dylanwad ar brosesau gwneud penderfyniadau

- Sut mae'r Asesiad Effaith Iechyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad?
- Pa risgiau/effeithiau negyddol sy'n parhau?

Mae'r Asesiad Effaith Iechyd wedi cadarnhau bod angen i'r polisi gael ei roi ar waith mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant y gweithlu gan ddiogelu cynaliadwyedd gwasanaethau a mynediad at ofal ar yr un pryd. Mae wedi llywio'r pwyslais ar lythyr cylch gwaith clir, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd, ymgynghori â llywodraeth leol a chomisiynwyr y GIG, ac ystyried unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a phobl sy'n cael gofal. Mae hefyd yn cefnogi'r penderfyniad i lunio canllawiau a gohebiaeth ar y cyd er mwyn sicrhau bod gweithwyr, cyflogwyr a chomisiynwyr yn deall sut y caiff y Cytundebau Cyflog Teg eu cymhwyso.

Y prif risgiau sy'n parhau yw y gallai'r Cytundeb Cyflog Teg cyntaf neu Gytundebau Cyflog Teg diweddarach greu pwysau o ran fforddiadwyedd, y gallai costau gael eu trosglwyddo i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, y gallai darparwyr llai o faint wynebu pwysau'n gysylltiedig â rhoi'r polisi ar waith ac na chaiff manteision eu sicrhau'n gyfartal ar draws lleoliadau gofal gwledig, Cymraeg, trawsffiniol neu fwy cymhleth. Dylid ystyried y risgiau hyn ym mhob cylch negodi ac mewn asesiadau effaith diweddarach unwaith y bydd y cytundeb manwl yn hysbys.

Monitro ac adolygu parhaus

- Sut y caiff effeithiau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl eu monitro?
- A nodwyd unrhyw ddangosyddion neu ffynonellau data?
- A oes angen adolygiad pellach?

Dylid monitro effeithiau ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl drwy gydol y broses o ddatblygu pob Cytundeb Cyflog Teg a'i roi ar waith. Byddwn yn gweithio gyda GCC i fonitro'r data o'u harolwg gweithlu blynyddol er mwyn mesur yr effaith ar y gweithlu ac a yw hyn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfraddau cadw gweithwyr neu o ran gweithwyr sy'n ystyried gadael y sector, gan fod cyflog wedi'i grybwyll fel rheswm dros adael mewn arolygon blaenorol.

Gallai dangosyddion perthnasol gynnwys cyflog y gweithlu gofal cymdeithasol, recriwtio a chadw staff, trosiant, absenoldeb oherwydd salwch, swyddi gwag, dilyniant, y defnydd o gontractau dim oriau neu gontractau ansicr, llesiant staff, cwynion ac anghydfodau a data'r gweithlu wedi'u dadgyfuno yn ôl cydraddoldeb lle y bo'n gyfreithlon ac yn gymesur. Dylai gwaith monitro ar lefel gwasanaeth ystyried parhad gofal, cynaliadwyedd darparwyr, mynediad at wasanaethau, effeithiau ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gofalwyr di-dâl a thaliadau uniongyrchol, ac unrhyw effeithiau ar y system iechyd a gofal ehangach. Gallai ffynonellau data gynnwys tystiolaeth o weithgarwch ymgysylltu â gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ac o arolygon o'r gweithlu hwnnw, gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad o'r Cyflog Byw Gwirioneddol, tystiolaeth o weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu, gwybodaeth am ddarparwyr a chomisiynwyr, adroddiadau tystiolaeth Corff Negodi Gofal Cymdeithasol Cymru yn y dyfodol, asesiadau effaith cyhoeddedig, ac adborth gan weithwyr, cyflogwyr, awdurdodau lleol, comisiynwyr y GIG, pobl sy'n cael gofal a gofalwyr di-dâl.

Dylid cynnal adolygiad pellach pan gaiff y Cytundeb Cyflog Teg cyntaf ei negodi a chyn iddo gael ei roi ar waith, gyda gwaith monitro dilynol yn cael ei gynnwys ym mhob cylch negodi blynyddol.

Datganiad Sicrwydd y Dirprwy Gyfarwyddwr

Cadarnhaf drwy hyn fy mod i, Taryn Stephens, wedi fy modloni bod y penderfyniad arfaethedig y mae'r asesiad yn ymwneud ag ef o natur strategol ynghylch sut i arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru.